Merthyr Tudful

Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)

**ARCHWILIAD**

www.merthyr.gov.uk/ldpexamination

**AGENDA**

**for**

**Gwrandawiad 2: Mawrth 25 Meh 2019 am 13:00**

**MATER 2: STRATEGAETH, CYFLENWAD A SEILWAITH Y CYNLLUN**

**Sylwadau a chyflwyniadau agoriadol**

## 2.1. Strategaeth y cynllun (gan gynnwys polisïau SW4 a SW5)

a. A fyddai dosbarthiad arfaethedig y twf yn cefnogi'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol?

b. A yw'r strategaeth ofodol wedi'i llunio mewn modd sy'n gyson â'r "dilyniant chwilio safle" a amlinellir yn Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC)[1], gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd, tir a ddatblygwyd o'r blaen, a thir amaethyddol "gorau a mwyaf amlbwrpas"?

c. A yw polisi SW4 yn nodi meini prawf asesu digon grymus ar gyfer rheoli ffurf yr aneddiadau o fewn y Fwrdeistref Sirol?

d. Mae Polisi SW5 yn caniatáu cynlluniau tai fforddiadwy ar raddfa fach "*sy'n ffinio* aneddiadau cyfagos". A ddylai hefyd fod yn berthnasol i aneddiadau bach sydd heb ffiniau dynodedig[2]?

## 2.2. Cyflenwad a seilwaith

a. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhestr seilwaith sydd ei hangen i gyflenwi'r Cynllun[3].

   i. A oes digon o sicrwydd y bydd modd ariannu a chyflenwi'r seilweithiau gofynnol a gwarchodedig a nodwyd yn yr atodlen?

   ii. A ddylai'r atodlen (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gael ei chynnwys fel atodiad i'r Cynllun, gyda'r dasg o gyflenwi'r seilwaith yn cael ei monitro yn erbyn yr amserlenni dangosol?

b. A yw'r dystiolaeth hyfywedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ofynion polisi a deddfwriaeth mewn perthynas â chyflenwi'r dyraniadau safle?

c. Beth yw goblygiadau ymarferol y gyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer draenio cynaliadwy o ran cyflenwi'r Cynllun? A oes tystiolaeth i ddangos bod y safleoedd a ddyrannwyd yn gallu rhoi cefnogaeth ymarferol i ddraeniad cynaliadwy, a'i gyflenwi yn unol â'r amserlenni tybiedig[4]?

d. A yw'r strategaeth yn ddigon hyblyg i ddelio â newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys ffactorau economaidd allanol?

---

[1] PCC paragraffau 3.37 i 3.55

[2] PCC paragraff 4.2.34

[3] Atodlen Seilwaith CDLl Amnewid Mai 2019 [ED007a]

[4] Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]

## 2.3 Rhwymedigaethau cynllunio (polisi SW9)

a. A yw'r cyfeiriad at lefel "ddangosol" o dai fforddiadwy ym maen prawf 1 polisi SW9 yn ddigon clir?
b. Mae paragraff 6.5.59 yn nodi y caiff mannau agored eu darparu yn unol â'r safonau a gynhwysir yn y Strategaeth Mannau Agored (OSS)[5].
   i. A yw'r safonau a fynegir yn yr OSS yn ddigon clir a/neu a ddylid eu crynhoi o fewn y Cynllun ei hun?
   ii. A fyddai'r cyfyngiadau Adran 106 ar gyfuno, neu'r gwrthdrawiadau seilwaith a nodwyd yn y rhestr a fabwysiadwyd yn ôl Rheoliad 123 ar Seilwaith Cymunedol, yn atal maen prawf 3 o bolisi SW9 rhag cael ei weithredu'n effeithiol?

## 2.4. Seilwaith trafnidiaeth (polisi SW12)

a. Mae'r Cyngor wedi cynnig newid paragraff 1.11 y Cynllun i amlygu'r ffaith nad yw'r Map Cyfyngiadau yn ffurfio rhan o'r Cynllun[6]. Gan fod llwybrau Teithio Llesol wedi'u dynodi o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a ddylid nodi llwybrau cymeradwy ar y Map Cyfyngiadau yn hytrach na'r Map Cynigion?
b. A yw'r Cynllun yn cefnogi'r dasg o weithredu'r prosiectau a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol[7] a'r buddsoddiadau a raglennwyd gan Drafnidiaeth Cymru? A yw'r rhain wedi'u hamlygu'n ddigonol yn yr amserlen seilwaith a gyflwynwyd[8]?
c. A yw'r mesurau diogelu a ddynodwyd ar gyfer estyn Rheilffordd Cwm Bargoed i Ddowlais Uchaf a'r Orsaf Metro newydd yn Ardal Adfywio Strategol Hoover, wedi'u cyfiawnhau gan y dystiolaeth trafnidiaeth[9]?

## 2.5. Unrhyw faterion eraill

---

[5] Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful Mehefin 2016 [SD47]
[6] Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]
[7] gan gynnwys y rhai yn Nhablau 5 a 10 o Gynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru Ionawr [SD40]
[8] Rhaglen Seilwaith y CDLl Amnewid Mai 2019 [ED007a]
[9] Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru Ionawr [SD40]; Asesiad Trafnidiaeth Strategol AAS Hoover [SD51]